

Y CLWB CREFFT

Mae'r Clwb Crefft yn cyfarfod bob yn ail ddydd Mercher yn y Pafiliwn (fel arfer o 2.00 tan 4.00 y prynhawn) i sgwrsio a chymdeithasu. Bydd yr aelodau'n dod â'u gwaith eu hunain (gweu, gwnïo, crosio, tapestri ac ati) yn dysgu crefftau newydd ac yn rhoi cynnig ar ambell i grefft newydd. Prif bwrpas y Clwb ydi cyfarfod i gael hwyl yn rhannu sgiliau ac arbenigedd.

Cost: £2 y sesiwn yn cynnwys paned

(Yr arian yn mynd at gynnal y Pafiliwn)

* **Dydd Mercher Mehefin y 3ydd:** Y trydydd mewn cyfres o wersi crosio gan Kathryn Powell (Bae Colwyn). Yn cychwyn am **11.30 y bore yn Ystafell Gwyddelan** (yr Ystafell TGCh/IT Suite gynt) ac yn para tan chwarter i dri (dewch â phegyn bwyd!)

* **Dydd Mercher Mehefin yr 17eg:** 2:00yp yn y Pafiliwn

* **Dydd Mercher Gorffennaf y 1af:** 2:00yp yn y Pafiliwn

* **A phob pythefnos ar ôl hynny, pan yn gyfleus i bawb.**

